# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD GWENER, 15 TACHWEDD 2013 am 1.00 o'r gloch y prynhawn | FRIDAY, 15 NOVEMBER, 2013 at 1:00 p.m. |
| SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL /ORIGINAL INDEPENDENT**

Jeff Evans, Jim Evans, Victor Hughes, G.O.Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)

**LLAFUR/LABOUR**

Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

Cynghorydd R.Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

P S Rogers

**AELODAU CYFETHOLEDIG (GYDA PHLEIDLAIS) PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS (WITH A RIGHT TO VOTE) WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **CAPASITI AC ADNODDAU AR GYFER NEWID** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwraig.

*(Mae pob aelod o'r Cyngor wedi cael gwahoddiad i fod yn bresennol am y drafodaeth ar y mater hwn).*

**RHIF YR EITEM**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | CYFARFOD ARBENNIG<br>SGRIWTINI CORFFORAETHOL |
| **Dyddiad** | 15 Tachwedd 2013 |
| **Pwnc** | Capasiti ac Adnoddau ar gyfer Newid |
| **Deilydd Portffolio** | Alwyn Rowlands |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | Dirprwy Brif Weithredwr |
| **Swyddog Cyswllt** | Dirprwy Brif Weithredwr |

**1. Rheswm am yr adroddiad:**

Pwrpas yr adroddiad yw amlinellu'r capasiti ychwanegol y rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y Cyngor ei angen er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r Rhaglen Drawsnewid, a gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo cyllido'r swyddi hyn o'r gyllideb ar gyfer cost newid.

**2. Cefndir**

Cymeradwywyd y Cynllun Trawsnewid ym mis Ionawr 2013 gan y Pwyllgor Gwaith. Ers hynny penodwyd Rheolydd ar gyfer y Rhaglen Gorfforaethol i gefnogi cyflawni'r Cynllun ac yn benodol i sefydlu trefniadau llywodraethu priodol.

Mae Trawsnewid gwasanaethau yn hollbwysig ar gyfer cynaliadwyedd y Cyngor i'r dyfodol. Mae llawer o wasanaethau CSYM angen eu moderneiddio i sicrhau eu bod yn effeithiol o ran cwrdd ag anghenion a dyheadau yn awr ac i'r dyfodol ac fel eu bod yn fwy effeithlon ac/neu gynaliadwy.

Sefydlwyd tri Bwrdd Rhaglen ac erbyn hyn mae pob un o'r rhain wedi blaenoriaethu eu ffrydiau gwaith. Gweler Atodiad 1.

Mae angen i ni symud yn sydyn yn awr i'r cyfnod cyflawni. Er mwyn gwireddu'r rhaglen, nododd y Cyngor blaenorol bod angen capasiti ychwanegol, gan ddyrannu £500k yng nghyllideb eleni ar gyfer costau newid.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r capasiti sydd raid wrtho yn y Tîm Trawsnewid i gyflawni'r ffrydiau gwaith sy'n cael eu blaenoriaethu.

**3. Rhaglenni Blaenoriaeth/Yr angen am Adnoddau ar gyfer Prosiectau**

Er mwyn cyflawni'r newidiadau strategol mewn gwasanaethau mae angen rhagor o gapasiti. Bydd hyn yn golygu y gellir canolbwyntio ar y rhaglen heriol sydd o'n blaenau. Mae gwaith a wnaed i ddatblygu rhaglenni newid wedi nodi bod angen y swyddi a nodir isod[1].

Ac eithrio lle dywedir fel arall, bydd deiliaid y swyddi yn gweithio dan arweinyddiaeth yr Uwch Swyddog Cyfrifol (Cyfarwyddwr fel arfer) a hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Pennaeth Gwasanaeth. Bydd y swyddi y cyfeirir atynt isod wedi eu lleoli yn yr Adran Trawsnewid Corfforaethol newydd. Pwrpas hyn yw sicrhau nad yw deiliaid y swyddi hyn yn cael eu tynnu oddi wrth waith ar y prosiectau Trawsnewid i roi sylw i'r agweddau gweithredol ar eu gwasanaethau.

Mantais arall y trefniant hwn yw ei fod yn datblygu tîm o unigolion a fedr fod wrth gefn ac a fedr ychwanegu at gapasiti fel y bydd angen ar draws y prosiectau Trawsnewid.

Trwy wneud hyn, bydd capasiti a ffocws yn dod ynghyd i yrru'r rhaglen yn ei blaen gyda chyflymder.

[1] Mae angen datblygu Disgrifiadau Swydd llawn ac yna eu gwerthuso

## 3.1 Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Mae yna raglen newid sylweddol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac mae angen capasiti ychwanegol i yrru a gweithredu'r newid a nodwyd.

Cytunwyd ar swydd Rheolydd Rhaglen yn 2012/13 i roi sylw i'r rhaglen Cartrefi Preswyl ond yn sgil rhoi rhagor o sylw i'r Rhaglen erbyn hyn, mae 6 o ffrydiau gwaith rhyng-gysylltiedig wedi eu nodi. O gofio cymhlethdod a sensitifrwydd y rhaglen, mae'r cynnydd cyfredol yn rhy araf. Bu rhai datblygiadau mwy adeiladol yn ddiweddar ac mae angen cynnal y momentwm hwn. Mae'r datblygiadau hynny'n cynnwys cynigion ar gyfer buddsoddiad mewn Tai Gofal Ychwanegol a phenderfynu sut i gefnogi'r rhaglen newid gan gyfeirio at y ddarpariaeth breswyl gyfredol a'r gwasanaethau ar gyfer trigolion. O ganlyniad, mae dryswch ymysg staff ac aelodau ynghylch y cynllun ac mae pryder cynyddol a fydd y newidiadau y mae angen eu gwneud yn cael eu cyflawni a phryder sylweddol am y canlyniadau i'r gylideb. Mae angen capsiti ychwanegol ar lefel uwch, a hynny ar fyrder, i wahanu'r rhaglen drawsnewid oddi wrth y gwaith o redeg a rheoli'r gwasanaeth o dydd i ddydd. Mae angen gwneud cynnydd amlwg erbyn hyn.

O'r herwydd, mae angen Rheolydd Strategol ar gyfer y Prosiect Trawsnewid yn y maes gofal cymdeithasol i oedolion.

Rôl yr unigolyn yn yr achos hwn fyddai diffinio'r rhaglen, blaenoriaethu a goruchwylio a rheoli pob agwedd ar gyflawniad.

Dylai'r swydd hon egluro'r cyfrifoldebau cyfredol y mae ansicrwydd yn eu cylch ar hyn o bryd a darparu arweinyddiaeth glir ar lefel uwch i fwrw ymlaen gyda'r gwaith fel blaenoriaeth ac mewn dull cydlynol, gan adael y Pennaeth Gwasanaeth i ganolbwyntio ar y gwaith dydd i ddydd arferol a rhai o'r newidiadau gweithredol llai y bydd angen eu gwneud ar gyfer gwella.

## 3.2 Trawsnewid yn y maes Addysg

Mae saith maes gweithgaredd allweddol a nodwyd mewn ymateb i adroddiad Estyn.

Mae'r rhain yn disgyn i 3 maes yn bennaf:

i) Codi safonau

ii) Gwella'r ffordd y mae'r Adran Addysg yn gweithio

iii) Gostwng nifer y lleoedd gweigion.

Mae Bwrdd Rhaglen wedi ei sefydlu i oruchwylio'r Cynllun Ôl-Arolwg llawn.

Rôl y PG newydd fydd canolbwyntio ar feysydd i) a ii), sef gwaith dydd i ddydd arferol yr Adran Addysg mewn gwirionedd. Cefnogir y swyddog o'r tu mewn i'r adran i yrru'r rhaglenni hyn yn eu blaenau ac mae arian Trawsnewid wedi ei ryddhau i ychwanegu at y capasiti yn y meysydd hyn trwy benodi Swyddog Uwch ar gyfer Safonau Ysgol a Chynhwysiad.

Yn achos y trydydd maes gwaith (Gostwng Nifer y Lleoedd Gweigion), cynigir y dylid penodi Rheolydd Prosiect penodol fel rhan o'r Tîm Trawsnewid i reoli prosiectau ysgolion unigol unwaith y mae cytundebau wedi eu gwneud ac unwaith y maent yn barod i fynd yn eu blaenau e.e. yr Ysgol 21ain Ganrif newydd yng Nghaergybi.

### 3.3 Trawsnewid Asedau

Bydd llawer o raglen drawsnewid y Cyngor yn cael effaith ar ei asedau. O'r herwydd, i'r rhaglen fod yn llwyddiant, cynigir y dylid creu swydd Rheolydd Rhaglen Asedau Strategol i yrru'r gwaith rhesymoli asedau a thrawsnewid, ac i roi cyngor proffesiynol i'r trawsnewidiadau gwasanaeth allweddol fel rhan o'r Tîm Trawsnewid Corfforaethol.

Byddai'r cyfrifoldebau penodol yn cynnwys:

- Rhesymoli swyddfeydd a gweithio'n hyblyg
- Cynllun Rhesymoli Asedau Eiddo Strategol
- Gwasanaeth rheoli prosiectau a throsglwyddo asedau i sefydliadau cymunedol
- Arbenigedd yn y maes eiddo, yn arbennig mewn perthynas â rhaglenni moderneiddio ysgolion, gofal cymdeithasol a gwasanaethau hamdden.
- Arwain ar y cydgyswllt rhwng y Rhaglenni Trawsnewid a'r adrannau cyfreithiol ac eiddo ar yr holl faterion sy'n ymwneud â rheoli stadau ac ar gomisiynu cymorth technegol priodol ar gyfer prosiectau.

Cynigir hefyd y bydd deilydd y swydd yn cael cymorth gan swydd a gyllidir â grant (Datblygu Economaidd) a fydd yn cefnogi datblygiad y trydydd sector.

### 3.4 Rheolydd Busnes Trawsnewid a Llywodraethu

Bydd raid cael achosion busnes llawn ar gyfer pob un o'r prosiectau trawsnewid mawr. Ar hyn o bryd, nid yw trefn o'r fath wedi gwreiddio'n dda o fewn gwaith y Cyngor.

Er enghraifft, bydd angen gwneud gwaith sylweddol ar yr achos busnes ar gyfer y newidiadau yn y maes gofal cymdeithasol i oedolion a chyda'r achosion busnes ar gyfer newidiadau ysgol unigol.

Mae achosion busnes yn fwy na dim ond cyllid.  Mae angen dealltwriaeth strategol o'r Cyngor, y gwasanaeth dan sylw a dadansoddiad o'r wybodaeth, yr ystadegau a'r opsiynau sydd ar gael.

Disgwylir y bydd deilydd y swydd hon yn datblygu arbenigedd mewn Achosion Busnes, gan gydlynu'r rheini sy'n gymhleth ac o bwys i'r Awdurdod, ac a fydd yn sail ar gyfer y Rhaglen Drawsnewid.  Yn arbennig:

- Moderneiddio ysgolion
- Moderneiddio gofal cymdeithasol
- Rhesymoli Asedau
- Gwasanaethau Hamdden

Bydd deilydd y swydd hefyd yn rhoi cyngor i eraill ar ddatblygu achosion busnes ac yn eu herio cyn iddynt gael eu cyflwyno'n ffurfiol.

Byddant yn arwain ar gydgysylltu rhwng y rhaglenni Trawsnewid a'r Swyddog Adran 151, mewn perthynas â darparu cymorth a gwybodaeth ariannol ar gyfer y rhaglenni a'r achosion busnes.

Yn ogystal, mae angen adolygu trefniadau llywodraethu'r Cyngor bob blwyddyn a sicrhau bod yr elfen hon o'r trawsnewid yn parhau, a bod y trefniadau cadarn wedi eu sefydlu.  Bydd y swydd hon hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol ac yn goruchwylio cynnydd yn y maes hwn gydol y flwyddyn.

**3.5  Crynodeb**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo creu'r swyddi hyn am gyfnod o 3 blynedd i'w cyllido trwy'r gyllideb ar gyfer costau newid.

Amcangyfrifir y bydd y tair swydd yn costio o gwmpas £230,000 am flwyddyn lawn.

**4.  Archwiliad gan y Comisiynydd Gwybodaeth**

Yn dilyn nifer o achosion o dorri'r ddyletswydd statudol i gadw gwybodaeth bersonol pobl yn ddiogel, bu'n rhaid i'r Cyngor arwyddo Ymrwymiadau dan y Ddeddf.  Fel rhan o archwiliad dilyn-i-fyny gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth(SCG), archwiliwyd cydymffurfiaeth y Cyngor gyda Deddf Diogelu Data 1998 yn ystod mis

Gorffennaf 2013. Edrychodd yr archwiliad ar dri maes a oedd yn debygol o fod yn risgiau i ddiogelwch gwybodaeth bersonol.

Mae'r archwiliad gan yr SCG yn dweud bod trefniadau'r Cyngor yn annigonol a gwnaed dros 100 o argymhellion. Mewn ymateb, mae'r Awdurdod wedi paratoi 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwella DDD' a gymeradwywyd gan yr UDA ac a dderbyniwyd gan yr SCG ar yr amod ei fod yn cyflawni ei amcanion ar amser.

Mae'r 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwella DDD' yn ymgorffori'r holl weithgareddau rheoleiddiol blaenorol mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth; a bod y cynllun yn cael ei deilwrio i gwrdd ag anghenion y Cyngor a'r hyn y gall ei gyflawni – mae'n werthusiad realistig o'r hyn y gellir ei gyflawni, yn hytrach na chynllun sy'n mabwysiadu argymhellion archwiliad yr SCG yn ddiwahân.

Y Bwrdd Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth, sef rhan o Raglen Trawsnewid Busnes y Cyngor, fydd y cyfrwng ar gyfer gwireddu'r cynllun gweithredu. Mae'r Bwrdd Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth wedi nodi perchenogion priodol ar gyfer y camau gweithredu ac mae'r rheini wedi cytuno bod angen cymryd y camau hyn.

Mae'r cynllun gweithredu'n dangos y bydd y gwaith yn cael effaith fawr ar Adnoddau Dynol, TGCh, a'r Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol. Mae'n amlwg nad yw'r adnoddau a'r capasiti cyfredol yn ddigonol. Mae yna faterion capasiti amlwg a difrifol mewn tri o'r meysydd gwasanaeth hyn y bydd angen capasiti ychwanegol i'w cyflawni ar amser erbyn Awst 2014.

| | |
|---|---|
| Adnoddau Dynol | 0.5 swydd (tan Awst 2014) - £20K (gan gynnwys gorbenion 30%) |
| TCGh | 1 x SO1 (tan Awst 2014) - £33.8k (gan gynnwys gorbenion 30%) |
| Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol | • Rhoi cefnogaeth rheoli prosiect ychwanegol i'r BPLIG; a chyllido ac allanoli pecynnau gwaith - £30,000*, neu<br>0.5 ôl-lenwi swydd SGG - £35.5k (cyflenwr allanol) ynghyd ag allanoli pecynnau gwaith £10k. |
| Cyfanswm | £83.8k **NEU** £99.3k * (yn dibynnu ar opsiynau addas ar gyfer rôl yr SGG) |

Mae'r risgiau o fethu â gweithredu'r cynllun hwn ar amser yn annerbyniol. Mae'r tebygolrwydd o ddirwy ddifrifol o hyd at £500k a difrod i enw da'r Cyngor yn dilyn torri'r Ddeddf yn parhau i fod yn uchel. Yn ogystal, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal archwiliad arall yn y dyfodol agos a gallai methiant i gyflawni'r newid hwn arwain at gymryd camau gorfodaeth yn erbyn y Cyngor.

| C – Goblygiadau ac Effaith | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | Mae'r gyllideb sail ar gyfer 2013/14 yn cynnwys £500k ar gyfer cost newid. Mae'r cais am gyllid i wella yn gyfanswm o £300k a gellir ei gyllido o'r gyllideb cost newid. Bydd y Cyngor yn gweld gostyngiadau sylweddol yn y gyllideb dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ac mae'n hollbwysig gwneud yr arbedion hynny trwy drawsnewid a dylid cyfiawnhau unrhyw fuddsoddiad mewn swyddi i sicrhau'r trawsnewid ac ystyried opsiynau priodol. Mae'r swyddi yn Addysg a Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi eu trafod gyda'r Swyddog A151 ac mae cynlluniau clir wedi eu llunio i gyfiawnhau'r swyddi. Nid yw'r swydd Trawsnewid Asedau wedi ei thrafod gyda'r Swyddog 151 ac mae angen eglurder nad oes capasiti ar gael ar hyn o bryd yn y gwasanaeth ac nad yw dyletswyddau'r swydd hon yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd o fewn y gwasanaeth eisoes.<br><br>Mae'r swydd Trawsnewid a Llywodraethu yn cyfeirio at baratoi achosion busnes. Dylid gofyn am eglurder ynghylch sut y byddai hynny'n gweithio'n ymarferol oherwydd fy nealltwriaeth i yw y bydd dyblygu gyda gwaith y rheini fydd yn arwain ar Addysg, Asedau a Gofal Cymdeithasol i Oedolion a chyllid. Bydd y Swyddog 151 a Rheolwyr Cyllid yn yr adran yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r swyddogion sy'n arwain y prosiectau mewn perthynas â darparu gwybodaeth ariannol a nhw fydd yn cefnogi'r prosiectau hyn ac nid y Rheolydd Busnes Trawsnewid a |

| | | |
|---|---|---|
| | | Llywodraethu ac mae hyn wedi cael sylw yn y strwythur Cyllid sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd ac felly mae dyblygu amlwg rhwng y swydd hon a'r rheini a gyllidir ar hyn o bryd o fewn yr Adran Gyllid. Mae cynhyrchu'r datganiad llywodraethu blynyddol yn rhan o'r swyddogaeth Archwilio Mewnol ac yn ffurfio rhan o'r cyfrifon.<br><br>Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth yn cefnogi'r buddsoddiad mewn Llywodraethu Gwybodaeth.<br><br>Cyngor y Swyddog 151 yw cyllido Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth, Gwasanaethau Gofal Oedolion, Asedau ac Addysg a sefydlu mesurau priodol i fonitro'r dychweliad ar y buddsoddiad, a chael rhagor o eglurder ynghylch rôl y Rheolydd Busnes Trawsnewid a Llywodraethu cyn cytuno i gyllido'r swydd honno oherwydd bod dyblygu clir rhyngddi a'r gwasanaeth a ddarperir o fewn yr Adran Gyllid. |
| **2** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| **3** | **Adnoddau Dynol** | |
| **4** | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **5** | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | |
| **6** | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **7** | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **8** | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **9** | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar | |

| | | |
|---|---|---|
| | wahân) | |
| **10** | **Economaidd** | |
| **11** | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **12** | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **13** | **Cytundebau Canlyniadau** | |

**Enw awdur yr adroddiad: Bethan Jones**
**Teitl Swydd: Dirprwy Brif Weithredwr**
**Dyddiad: 9 Hydref 2013**

**ATODIAD 1**

Fersiwn 7 (Tach 2013)

| Gyrrwyr | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hunan Asesiad** | **Cynllun Gwella** | **Rheoli Asedau** | **Gweithgareddau Rheoleiddio** | **Risg** | **Cynllun Corfforaethol** | **Arbedion** |
| Llywodraethu Gwybodaeth | Adferiad y Gwasanaeth Addysg (CGOA ESTYN) | Moderneiddio Ysgolion | Estyn CGOA | Ailstrwythuro PG (YM9) | Wrthi'n cael ei ddatblygu | Wrthi'n cael ei ddatblygu |
| Ailstrwythuro PG | Transformation of Leisure Service | Hamdden | IA - Adran y Dirprwy Brif Weithredwr | Arfarnu Swyddi (YM32, YM34) | | |
| Rheoli Rhaglen | Trawsnewid y Gwasanaeth i bobl Hŷn | Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn | IA - Adran Gwasanaethau Cymunedol | Rheoli Asedau (YM22) | | |
| Strategaeth Hamdden ar gyfer y Tymor | Parhau i Wella'r Gwasanaethau Plant | Swyddfeydd | IA - Adran Dysgu Gydol Oes | Strategaeth TG (YM7) | | |
| Strategaeth TG | | Llyfrgelloedd | IA - Adran Datblygiad Cynaliadwy | Llywodraethu Gwybodaeth (YM31) | | |
| Datblygu Fframweithiau Adnewyddu ar gyfer Dwy Ardal (Prosiect y Tair Tref?) | | | | | | |
| Ymgysylltiad Cymunedol | | | | | | |
| Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer | | | | Diwygio Lles (YM15) | | |
| Arfarnu Swyddi | | | | CGOA Estyn (YM23, YM24, YM25) | | |
| Strategaeth Pobl | | | | Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn (YM5) | | |
| Rhaglen Moderneiddio ar gyfer Oedolion Hŷn | | | | Parhau i Wella'r Gwasanaethau Plant(YM16) | | |
| CGOA ESTYN | | | | Tai Fforddiadwy (YM38) | | |
| Cynllun Corfforaethol | | | | Rhaglen Gwasanaethau Hamdden (YM37) | | |
| | | | | Rhaglen Rheoli Gwastraff (YM29) | | |

| Byrddau Rhaglen Trawsnewid - Rhaglenni/Prosiectau Newid Blaenoriaeth UCHEL | | |
|---|---|---|
| **Ynys Fenter** | **Rhagoriaeth Gwasanaeth** | **Trawsnewid Busnes** |
| **Rhaglen Ynys Ynni - Ffrydiau Gwaith:**<br>> (01) Addysg, Sgiliau<br>> (02) Gadwyn Gyflenwi<br>> (03) Newid Ymddygiad<br>> (04) Isadeiledd Strategol<br>> (05) Iechyd, Diogelwch a Lles Cymunedol<br>> (06) Tîm Cyflenwi Ynni Enfawr<br>> (07) Ymchwil a Datblygu<br>**Rhaglen Adfywio:**<br>> Prosiect Diwygio Lles *(p)*<br>> Strategaeth Tai *(t)*<br>> Cynllun Datblygu Lleol *(t)*<br>**Cynllunio Rheoli Cyrchfan** *(p)*<br>**Rhaglen Gyllido'r UE:**<br>> Cronfa Fuddsoddi Leol *(p)*<br>> Safleoedd ac eiddo *(p)*<br>> Ymweld â Mon *(p)*<br>> Tair Tref *(p)*<br>> Prosiectau arfordirol *(p)*<br>**Cynllun Integredig Sengl (partneriaethau)** *(t)*<br>Prosiect Tai Fforddiadwy (LAMS) (p) | **Rhaglen CGOA Estyn:**<br>> Safonau *(p)*<br>> Rhaglen Moderneiddio Ysgolion *(Rh)*<br>**Strategaeth Effeithlonrwydd** *(t)*<br>**Rhaglen Moderneiddio Gofal Cymdeithasol i Bobl Hŷn**<br>> Ailalluogi *(p)*<br>> Gwell Llety *(p)*<br>> Atodlen Trethi *(t)*<br>> Caffael / Broceriaeth *(t)*<br>**Rhaglen Rheoli Gwastraff:**<br>> Datblygu Strategaeth Rheoli Gwastraff *(t)*<br>> Ailgylchu *(p)*<br>**Prosiect UCA (TLlU)** *(p)* | **Rhaglen AD:**<br>> Datblygu Strategaeth Pobl *(t)*<br>> Arfarnu Swyddi a Statws Sengl *(p)*<br>> Gwella Systemau AD a Data Gweithlu y gellir ei asesu (Northgate) *(p)*<br>**Datblygu Strategaeth TG** *(t)*<br>**Sgilio'r Awdurdod i ymdopi â'r Rhaglen Heriadau:**<br>> Datblygu'r Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau *(t)*<br>> Strategaeth ar gyfer Technegau Systemau Diwastraff *(t)*<br>**Swyddfeydd a Gweithio Hyblyg - Gweithio'n gallach ar Ynys Môn** *(p)*<br>**Prosiect Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer** *(p)*<br>**Adolygiad o Rôl a Swyddogaethau PG** *(t)*<br>**Gwobrwyon Staff** *(t)*<br>**Datblygu'r Cynllun Corfforaethol** *(t)*<br>**Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth** *(p)* |

| Byrddau Rhaglen Trawsnewid - Rhaglenni Prosiectau Newid Blaenoriaeth GANOLIG/ISEL | | |
|---|---|---|
| **Ynys Fenter** | **Rhagoriaeth Gwasanaeth** | **Trawsnewid Busnes** |
| **Rhaglen Adfywio Mon a Menai** *(Rh)*<br>**Llwuddo'n Lleol** *(p)* | **POTENSIAL** *(p)*<br>**Lleihau Costau Cludiant - TAITH** *(Pc)*<br>**Adolygiad Ariannol Priffyrdd** *(t)* | **Cynllun Parhad Busnes** *(t)*<br>**System Tai Newydd - ORCHARD (Cam 2)** *(p)*<br>**Gwasanaethau Rheoli Adeiladu** *(Pc)*<br>**Gwasanaeth Cyfreithiol ar y Cyd GC** *(Pc)*<br>**Ardoll Isadeiledd Cymunedol** *(Pc)*<br>**Cynllunio at Argyfwng** *(Pc)*<br>**Gwarchod y Cyhoedd ar y Cyd GC** *(Pc)*<br>**Safonau Masnach ar y Cyd GC** *(Cp)* |

| Byrddau Rhaglen Trawsnewid - Rhaglenni Prosiectau newid WEDI EU GOHIRIO AM Y TRO (*) /HEB GYCHWYN | | |
|---|---|---|
| **Ynys Fenter** | **Rhagoriaeth Gwasanaeth** | **Trawnsewid Busnes** |
| **Taith i Waith** *(p)*<br>**Ystwythder** *(p)*<br>**Datblygu Sgiliau Newydd yn y Gymuned** *(p)*<br>**Cymunedau Oed Gyfeillgar** *(p)*<br>**Rhoi sylw o'r newydd i Arwyddion ar Draethau Baner Las** *(p)*<br>**Prosiectau UE newydd** *(p)*<br>**Rhaglen Partneriaeth Tirwedd a Chorsydd Môn** *(Rh)*<br>**Cynllun Rheoli AHNE** | **Adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau cefnogol ar gyfer plant ag anableddau gyda golwg ar ailfodelu'r gwasanaeth i gydweithio â CS Gwynedd a phartneriaid** *(Pc)*<br>**Ailstrwythuro'r gwasanaeth i wella'r modd y darperir gwasanaethau i wella'r ddarpariaeth ac ymchwilio i ddulliau newydd, mwy symudol a diwastraff o weithio** *(p)*<br>**Anableddau Dysgu** *(p)*<br>**Rhaglen Gofal Cwsmer** *(Rh)*<br>**Archwiliad Môn o Gudiant Gofal Cymdeithasol** *(p)*<br>**UPM (Un Pwynt Mynediad - Atgyfeiriadau Oedolion)** *(Pc)*<br>**Rhaglen GCOH - Prosiect Dementia** *(p)*<br>**Rhaglen Gwasanaethau Hamdden:**<br>> Datblygu Strategaeth Gwasanaethau Hamdden *(t)*<br>> Allanoli CH Biwmares *(p)*<br>> Allanoli parciau a chyfleusterau hamdden awyr agored *(p)*<br>**Strategaeth Gwasanaethau Llyfrgell** *(t)*<br>**Strategaeth Gwasanaethau Diwylliannol** *(t)* | **Cwrdd â gofynion y Ddeddf Cynaliadwyedd**<br>**Prosiect Lleihau Carbon** *(p)*<br>**Asesiad Comisiynu** *(p)*<br>**Ethos Môn – Datblygu Capasiti Rheoli Newid a Rheolydd Môn (Cam 2)** *(p)*<br>**Datblygu Datganiad Cydweithio** *(t)*<br>**Gwobr Green Dragon** *(p)*<br>**E-Gynllunio** *(p)*<br>**Ail-leoli Staff Gwasanaethau Cymdeithasol** *(p)*<br>**System TGCH RAISE** *(p)*<br>**Caffael** *(p)*<br>**Rheoli Cytundebau a Caffael electronig** *(p)* |

| Byrddau rhaglen Trawsnewid - Rhaglenni /Prosiectau Newid sydd WEDI CAU | | |
|---|---|---|
| **Ynys Fenter** | **Rhagoriaeth Gwasanaeth** | **Trawsnewid Busnes** |
| **Rhaglen Adnewyddiad Democrataidd** *(p)* | **Fframwaith Rheoli Perfformiad** *(p)*<br>**Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd** *(p)* | **Strategaeth Gyfathrebu** *(t)*<br>**Sefydlu Rheoli Risg** *(t)*<br>**Ethos Môn – Datblygu Capasiti Rheoli Newid a Rheolydd Môn (Cam 2)** *(p)*<br>**System Dai Newydd - ORCHARD (Cam 1)** *(p)*<br>**Cydweithio CTCC** *(bydd yn dod i ben)*<br>**Trefniadau Oriau Hyblyg (Fflecsi)** *(p)*<br>**Telerau ac Amodau Teithio Staff** *(p)*<br>**Moderneiddio Cyllid** *(p)* |

**Allwedd:**
- *Rh* - Rhaglen
- *p* - Prosiect
- *t* - Tasg
- *Pc* - Prosiect Cydweithio
- * - Am y tro